

## Is bwyllgor Cyllid Ionawr 2016

Presennol: Dilys Evans, Lis Puw

Ymddiheuro: Eifion Roberts

1. Gwnaethpwyd yr Asesiad blynyddol o risgiau ariannol – y prif bryder oedd yr her o ddarparu rhai gwasanaethau efallai y bydd Cyngor Gwynedd yn gorffen eu cyflawni. Cytunwyd gan fod y Domen yn cael ei hadfer mai doeth fyddai oedi cyn gwahodd tendrau am y gwaith cynnal a chadw. Argymhellwyd parhau gyda'r drefn bresennol ar hyn o bryd.
2. Adolygiad blynyddol cyflog y clerics (o Ebrill) - (Bydd y codiad cenedlaethol yn debygol o fod yn 1% ond nid oes cytundeb eto). Cytunwyd i adael y mater i'w drafod eto gan Dilys Evans ac Eifion Roberts.
3. Gwnaed adolygiad blynyddol o wariant 2015- 16 a gwelwyd y byddwn yn debygol o wario dros ein cyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac felly yn defnyddio arian wrth gefn. Mae hyn wedi digwydd oherwydd prynu 2 fainc a hysbysfwrdd a gwneud cyfraniad o £1000 i Neuadd Buddug. Ond mae gwariant annisgwyl yn gallu digwydd unrhyw adeg.
4. Trafodwyd Drafft cyllideb 2016-17 – rhagwelir yr angen am dros £18,000.
5. Argymhellwyd gosod lefel y Praesept ar £19,000